

## Asesiad Effaith Cydraddoldeb – Ffurflen Sgrinio (A)

At ddibenion y ddogfen hon, gall y gair 'cynnig' gyfeirio at unrhyw bolisiâu, strategaethau, adolygiadau, prosiectau, cynlluniau, ac mae'n cynnwys dogfennau newydd, rhai wedi'u hadolygu neu rai wedi'u diwygio'n sylweddol.

<b>Enw'r Polisi/Gweithdrefn/Prosiect/Darn o offer a gynigir</b> <b><i>Canllawiau Polisi ar Drais ar sail Rhywedd, Trais Domestig a Thrais Rywiol</i></b>	
<b>Bwrdd/Adran/Tîm</b> <b><i>Adnoddau Dynol/Cydraddoldeb</i></b>	
<b>Dyddiad sgrinio</b> <b>12fed Gorffennaf 2014</b>	<b>Pwy yw'r prif fuddiolwyr/defnyddwyr?</b> Staff GTAGC a Chymuned y Gogledd
<b>Nodau, amcanion a chanlyniadau</b> <b><i>Nod y canllawiau polisi yw amlinellu safle'r Gwasanaeth ar Drais Domestig a Thrais Rywiol mewn perthynas â staff sydd yn gweithio i'r Gwasanaeth, neu aelodau'r cyhoedd y mae'n staff yn dod i gysylltiad â hwy o ddydd i ddydd.</i></b>	

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn ein cynorthwyo i hybu cyfle cyfartal a gwasanaethau, yn ogystal â rhwystro gwahaniaethu anghyfreithlon. Arf yw hwn a fydd o gymorth ichi pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau allweddol, datblygu prosiect, ysgrifennu neu ddiweddarau polisi/gweithdrefn, neu ddechrau menter. Bydd yr asesiad hefyd yn fodd i wasanaethu fel awdit o'r penderfyniadau y byddwch yn eu cynnig.

Mae asesu ar gyfer effaith/risg yn ofyniad cyfreithiol. Fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus, mae'n rhaid inni ystyried sut y bydd y penderfyniadau a wnawn yn effeithio ar bobl a'u nodweddion gwarchodedig, sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chredoau, rhyw neu ogwydd rhywiol.

## Sgrinio ar gyfer Effaith

Ystyriwch bob un o'r Nodweddion Gwarchodedig isod, a nodwch a oes risg effaith **isel**, **canolig** ynteu **uchel** i'ch cynnig.

<b>Lefel y risg</b>	
Isel	Yr effaith lleiaf posib ar y nodweddion gwarchodedig. Effaith niweidiol yn annhebygol.
Canolig	<p>Risg isel neu ganolig y gallai hyn effeithio ar nodwedd warchodedig. Mesurau ar waith i sicrhau ba fydd unrhyw effaith anffafriol.</p> <p>Effaith negyddol sylweddol ar y grwpiau nodweddion gwarchodedig. Os oes rhesymau lliniarol, megis goblygiadau deddfwriaethol (e.e.; oed trwydded gyrru), gofynion swydd (e.e.; prawf llygaid ar gyfer recriwtiaid), neu feini prawf prosiectau (e.e.; gyrwyr ifanc), dylid eu cynnwys yn yr aran berthnasol. Nodwch os gwelwch yn dda na ellir defnyddio cost yn unig fel rheswm lliniarol.</p>
Uchel	<p>Effaith negyddol fawr ar y grŵp nodweddion gwarchodedig o ran y gymuned, y staff neu brosesau busnes. Byddai'n arwain at beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth, ac felly gallai olygu risg i'r sefydliad. Os gwelir y lefel hon, rhaid llenwi Ffurflen Asesiad Llawn (B).</p> <p>Ond os yw'r effaith yn hyrwyddo cyfle cyfartal a gwasanaethau i grŵp sydd wedi ei dangynrychioli (megis diwrnodau mynediad i fenywod, neu ymgyrch diogelwch tân wedi ei hanelu at ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl), gallai hyn fod yn effaith gadarnhaol, a chaniateir hyn yn ôl y gyfraith.</p>
<b>Arferion Da / Ffactorau Lliniarol</b>	Os bydd y weithdrefn, y prosiect, y cynllun ayyb yn darparu gwelliannau – er enghraifft, pan fo'r geiriad yn cael ei wneud yn fwy cynhwysol, cofiwch roi hyn yn yr adran Arferion Da. Hefyd, os oes ffactorau lliniarol (fel y nodir yn y Canllawiau), cofiwch eu nodi yma.

<b>Nodweddion Gwarchoddedig</b>	Lefel y risg Uchel, Canolig, Isel	Eglurwch yn fras beth yw eich asesiad os gwelwch yn dda	Arferion Da a/neu Ffactorau Lliniarol
<b>Oedran</b> (iau, hŷn neu grŵp oedran arbennig)	Isel	Mae merched hŷn yn llai tebygol o adrodd am eu profiad o drais domestig	Mae'r canllawiau polisi'n glir y gall unrhyw un o unrhyw oed ddiodef trais domestig. Mae'r canllawiau polisi'n berthnasol i'r holl staff ac aelodau'r cyhoedd waeth beth fo'u hoed.
<b>Anabledd</b> (corfforol, synhwyrdd, iechyd meddwl, salwch tymor hir, dirgel)	Isel	Mae merched anabl yn fwy tebygol o ddiodef trais domestig a thrais rhywiol na merched abl.	Mae'r polisi ar gael ar-lein ac ar y fewnrwyd, ac mae ar gael mewn sawl fformat hygyrch. Mae wedi ei ysgrifennu mewn iaith gyfeillgar ac mae wedi ei osod mewn modd sy'n gyfeillgar i'r defnyddiwr. Mae'r canllawiau polisi'n berthnasol i'r holl staff ac aelodau'r cyhoedd waeth beth fo'u statws anabledd.

<b>Ailbennu Rhywedd</b> (rhywun sydd mewn stad o drawsnewid o un rhyw i'r llall)	Isel	Mae llai o wasanaethau ar gael i ddynion a merched trawsrywiol.	Er nad ydy'r canllawiau polisi'n nodi dioddefwr Trawsrywiol yn benodol, y mae'n glir y gall trais domestig ddigwydd ddyn i ddynes, dynes i ddyn, dynes i ddynes, dyn i ddyn a rhiant i blentyn. Mae'r canllawiau polisi'n berthnasol i'r holl staff ac aelodau'r cyhoedd pa unai a ydynt yn drawsrywiol ai peidio.
<b>Priodas/Partneriaeth Sifil</b> (cyplau priod yn ogystal â chyplau o'r un rhyw)	Isel	Y mae trais personol gan bartner yn golygu trais yn erbyn gŵr, gwraig neu barner sydd yn byw gyda chi neu rywun y mae gennych berthynas gyda hwy.	Defnyddir y term partner drwy gydol y ddogfen hon er mwyn cynnwys dioddefwyr sydd nid yn unig wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil, ond sydd hefyd yn byw gyda'i gilydd. Mae'r canllawiau polisi'n berthnasol i'r holl staff ac aelodau'r cyhoedd pa un ai a ydynt yn briod, mewn partneriaeth sifil neu'n byw gyda phartner.
<b>Beichiogrwydd a Mamolaeth</b> (Beichiogrwydd, cyfnod mamolaeth, bwydo o'r fron)	Isel	Gall beichiogrwydd sbarduno trais domestig yn aml iawn. Mae traean o achosion o drais domestig yn chychwyn neu'n gwaethygu pan fydd dynes yn feichiog.	Mae'r diffiniadau canlynol wedi eu cynnwys fel arwyddion o drais; achosi erthyliaid, bygwth plant, ayb. Mae'r canllawiau polisi'n berthnasol i staff yn ystod beichiogrwydd a chyfnod mamolaeth.
<b>Hil</b> (Tarddiad Ethnig, cenedligrwydd, lliw, gan gynnwys sipsiwn a theithwyr)	Isel	Y mae troseddau ar sail anrhydedd a phriodasau dan orfod ymhlith genethod Asiaidd, a rhai bechgyn, yn golygu y gall hyn fod	Mae'r canllawiau hyn yn nodi'n glir y gall trais domestig ddigwydd ar draws yr holl grwpiau Hil, ac mae'n cynnwys

		yn broblem ar gyfer y grŵp yma. Y mae merched o Leiafrifoedd Ethnig yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gefnogaeth oherwydd y teulu.	gwybodaeth am sefydliadau allanol sy'n cefnogi pobl o wahanol Hil. Mae'r canllawiau polisi'n berthnasol i'r holl staff ac aelodau'r cyhoedd waeth beth fo'u Hil.
<b>Crefydd/Credoau</b> (Cristion, Mwslimaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Bwdhaidd)	Isel	Y mae camddehongli dysgeidiaethau crefyddol yn gallu dwysau trais domestig.	Nid yw'r polisi yn gwahaniaethu unrhyw un ffydd benodol, ac fe fydd yn berthnasol i'r holl staff ac aelodau'r cyhoedd waeth beth fo'u cred.
<b>Rhyw</b> (Menyw, Dyn)	Isel	Er mai merched sydd yn dioddef trais yn bennaf, cydnabyddir y gal dynion ddioded trais domestig neu drais rhywiol gan ferched neu bartneriaid o'r un rhyw.	Mae'r canllawiau polisi yn niwtral o safbwynt rhywedd, ac y mae'n bwysig bod yr holl staff yn cydnabod y gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Dengys gwybodaeth Genedlaethol mai merched sydd gan amlaf yn dioddef trais domestig, fodd bynnag, fe all dynion ei chael hi'n anodd dod o hyd i gymorth ychwanegol. Y

			mae asiantaethau sy'n gweithio'n benodol gyda dynion wedi eu nodi ar y rhestr o gefnogaeth allanol.
<b>Gogwydd Rhywiol</b> (Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol)	Isef	Fe all merched a dynion lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol fod yn agored i gael eu cam-drin gan bobl sydd yn tanseilio eu rhywedd ac yn bygwth dweud wrth gydweithwyr, cyflogwyr neu aelodau'r teulu am eu gogwydd rhywiol.	Mae'r polisi hwn yn nodi y gall staff lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol fod yn ddiodefwr, yn ogystal â staff Heterorywiol; ac mae asiantaeth benodol ar gyfer pobl lesbiaid, hoyw a deurywiol sydd wedi ei nodi ar y rhestr o gefnogaeth allanol. Mae'r canllawiau polisi yma'n berthnasol i'r holl staff ac aelodau'r cyhoedd waeth beth fo'u gogwydd rhywiol.
<b>Iaith</b> (Cymraeg eu hiaith, ieithoedd lleiafrifol ethnig, Braille, iaith arwyddion)	Isef		Os bydd staff yn dymuno trafod agweddau a amlygir yn y canllawiau polisi yma drwy gyfrwng y Gymraeg yna fe fydd yr adran Adnoddau Dyno yn ymdrechu i wneud hynny.

***Os gwelir risg uchel i unrhyw nodwedd warchoddedig, bydd angen Asesiad Llawn (Ffurflen B). Os canolig yw'r risg, ond nad oes unrhyw Ffactorau Lliniarol, mae angen Asesiad Llawn hefyd, felly siaradwch gyda'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb.***

Mae'n rhaid i'r ffurflen hon gael ei llofnodi gan y sawl a ofynnodd ichi ei llenwi (chi eich hun, eich rheolwr llinell, arweinydd y prosiect ayyb), a chadwch gopi gyda'r ddogfen berthnasol.

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i Asesiadau Effaith Cydraddoldeb gael eu cyhoeddi, felly caiff hon ei huwchlwytho i'r adran Asesiadau Effaith ar *Gydraddoldeb* ar y fewnrwyd, ac mae'n bosibl y bydd ar gael ar ein gwefan hefyd.

**Llofnod y sawl sy'n sgrinio:**

Llofnod:

Enw: Sue Jones                      Dyddiad:12fed Mehefin 2014

**Llofnod y sawl sy'n awdurdodi:**

Llofnod:

Enw: Ruth Simmons      Dyddiad:12fed Mehefin 2014